

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	25 Mawrth 2025
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Julie Matthews
Pennaeth Gwasanaeth	Rhiain Morrelle, Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Addysg a Phlant
Awdur yr Adroddiad	Rhiain Morrelle, Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Addysg a Phlant
Teitl	Polisi Deall Maethu

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno polisi Deall Maethu a fydd yn caniatáu gwyliau ychwanegol ar gyfer gofalwyr maeth yr awdurdod lleol er mwyn helpu i recriwtio a chadw staff.
- 1.2. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y Polisi Deall Maethu y mae gofyn i'r Cabinet ei ystyried a'i gymeradwyo. Gellir dod o hyd i'r Polisi a'r Canllawiau yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Cael cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r polisi Deall Maethu.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Polisi Deall Maethu yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cabinet.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

Polisi Deall Maethu

4.1. Derbynnir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fod lleoliad o fewn eu sir eu hunain, neu mor agos â phosibl i'w sir eu hunain, yn bwysig gan fod hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol sefydledig gyda theulu, ffrindiau ac addysg. Mae cynnal anghenion diwylliannol ac ieithyddol plant a phobl ifanc hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer ein sir yn y broses leoli.

Bydd lleoli plentyn neu unigolyn ifanc ymhell o'u hardal leol yn cael effaith niweidiol ar yr unigolyn a'u teulu, ond bydd hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes wedi'u hystyngwch gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn teithio ymhell i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol.

4.2. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y gofalwyr maeth posibl sy'n cyflwyno eu hunain ar gyfer asesiad a chymeradwyaeth wedi lleihau. Rydym yn aml yn cystadlu ag Asiantaethau Maethu Annibynnol i ddenu gofalwyr posibl.

4.3. Gall costau lleoliadau â Darparwyr Maethu Annibynnol amrywio yn ddibynnol ar y cwmni cysylltiedig ac unrhyw gyfyngiadau sy'n ofynnol o fewn y lleoliad e.e. ffi uwch os yw'r plentyn yn cael ei leoli ar ei ben ei hun, neu ag amodau mechnïaeth cyfyngol. Fel rheol gyffredinol, mae lleoliad â Darparwr Maethu Annibynnol yn costio dros ddwbl lleoliad â gofalwr maeth mewnol. Y rheswm dros hyn yw bod y darparwr yn derbyn ffi ar gyfer pob lleoliad.

4.4. Er mwyn sicrhau bod digon o leoliadau ac er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar y sector annibynnol, rydym eisoes wedi buddsoddi mewn recriwtio, hysbysebu a brandio er mwyn bod yn weladwy mewn marchnad gystadleuol iawn ac annog mwy o ofalwyr i gyflwyno eu hunain i gael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth yr awdurdod lleol. Yn y fenter hon, rydym wedi derbyn cefnogaeth gan ein cydweithwyr Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu ac rydym yn rhan o Maethu Cymru, sy'n frand cenedlaethol ymbarél i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

4.5. Er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n cyflwyno eu hunain ar gyfer asesiad, ac i gadw gofalwyr maeth presennol, rydym wedi lansio prosiect i wella ein 'cynnig craidd' i ofalwyr maeth. Ynghyd â chyfraddau tâl da, rydym yn awyddus i gynnig cyfres o gymhellion na fyddent ar gael pe baech yn maethu ar gyfer Asiantaeth

Faethu Annibynnol. Er enghraifft, mae rhai ALI yn cynnig llefydd parcio am ddim, gostyngiadau treth y cyngor a gwyliau ychwanegol i'w gofalwyr maeth mewnl.

4.6. Yn ystod asesiadau gofalwyr maeth, mae gofyn i ofalwyr posibl ymgymryd â hyfforddiant tri diwrnod. Ar hyn o bryd, mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ddefnyddio eu gwyliau eu hunain neu ddefnyddio'r polisi gweithio'n hyblyg i gwblhau'r hyfforddiant gofynnol hwn.

4.7. Yn ogystal â hynny, unwaith y cânt eu cymeradwyo, mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant y mae gofyn i ofalwyr eu mynychu. Ochr yn ochr â hyn, mae'n rhaid i'r gofalwyr maeth fod ar gael ar gyfer ymweliadau a chyfarfodydd yn ymwneud â'r plant yn eu gofal. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ofalwyr maeth sy'n gweithio i Gyngor Sir Ddinbych gymryd gwyliau neu ddefnyddio'r polisi gweithio'n hyblyg i fynychu cyfarfodydd o'r fath.

Mae'r Rhwydwaith Maethu, elusen genedlaethol sy'n cefnogi gofalwyr maeth, wedi cyflwyno'r syniad o bolisiau AD 'Deall Maethu', sy'n cydnabod rôl gofalwyr maeth drwy gynnig gwyliau ychwanegol i weithwyr cymwys ymgymryd â dyletswyddau/tasgau a hyfforddiant sy'n hanfodol i'w rôl maethu.

Mae Maethu Cymru'n cefnogi'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu eu Polisi Deall Maethu eu hunain. Yn ogystal â hynny, mae Maethu Cymru'n gweithio gydag asiantaethau partner i weithredu eu polisiau AD eu hunain sy'n ystyriol o faethu.

4.8. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, byddai Cyngor Sir Ddinbych yn rhannu neges gadarnhaol â gofalwyr maeth presennol a phosibl, gan ddangos ein bod, fel Cyngor, yn gwerthfawrogi gwaith ac ymrwymiad gofalwyr maeth i blant diamddiffyn o fewn eu cymuned.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at y themâu canlynol, Sir Ddinbych ffyniannus, Ddinbych iachach, hapusach a mwy gofalgar.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Yn gyffredinol, daeth yr asesiad o effaith ar les i'r casgliad bod y polisi'n cael effaith gadarnhaol ar fwyafrif y nodau lles, gydag un nod niwtral. Mae'r effaith gadarnhaol yn cynnwys lleoli plant yn eu hardal leol, sy'n eu galluogi i gynnal cysylltiadau agos â'u cymuned, teulu, addysg, gofal iechyd, y Gymraeg a diwylliant.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae mabwysiadu polisi 'Deall Maethu' er mwyn cynorthwyo â recriwtio a chadw gofalwyr maeth awdurdod lleol wedi cael ei gytuno gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, gydag Undebau Llafur a'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid yw hyn yn berthnasol ar y cam hwn o'r broses.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae recriwtio gofalwyr maeth yr awdurdod lleol yn flaenoriaeth gorfforaethol. Nid yn unig fydd cynyddu argaeledd gofalwyr maeth Sir Ddinbych yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor, ond bydd hefyd yn caniatáu canlyniad gwell i'n plant sy'n derbyn gofal drwy eu lleoli o fewn eu cymunedau lleol. Drwy beidio â chynorthwyo â recriwtio a chadw gofalwyr maeth, mae perygl y bydd y Cyngor yn wynebu cynnydd pellach yn y pwysau ar y gyllideb ac y bydd plant yn parhau i fod heb leoliad gofal maeth lleol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol.